



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Yr UE yn fy rhanbarth

Cystadleuaeth Lluniau



A ydych chi'n cael eich ysbrydoli gan brosiect a ariennir gan yr UE yng Nghymru? Defnyddiwch eich sgiliau ffotograffiaeth a rhwch gystadleuaeth ffotograff 'UE yn fy Rhanbarth' i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y 30 llun buddugol yn cael eu llunio mewn arddangosfa sy'n teithio o gwmpas Ewrop.

Dyddiad cau: 31 Awst 2018 ([dolen](#)).

Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2018

Rydym yn awr yn derbyn ceisiadau ar gyfer Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2018.

Os hoffech gael eich cydnabod am eich gwaith caled, cael mynd i seremoni fawreddog yng nghwmni enwogion, a mynd â £1000 adref gyda chi, ymgeisiwch nawr! Mae yna 8 categori yng ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru eleni, felly pa bynnag ddiwydiant yr ydych ynddo, mae yna categori i chi arddangos eich cyflawniadau. Ewch i [yma](#) i gael rhagor o wybodaeth a gofyn am eich pecyn cais.

Gallwch yn awr archebu eich lle ar gyfer Gwobrau a Chynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru 2018! Cynhelir y digwyddiad hwn dros ddau ddiwrnod ar 26 a 27. Medi.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Bydd Cytundeb Cyd-bwyllgor sy'n amlinellu egwyddorion gwaith Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo gan bob un o'r pedwar cyngor rhanbarthol erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Cytundeb yn paratoi'r ffordd i drefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig gael eu sefydlu'n ffurfiol.

Bydd y trefniadau llywodraethu'n cynnwys Cyd-bwyllgor a fydd yn goruchwyllo pob agwedd ar y Fargen Ddinesig, yn ogystal â Bwrdd Strategaeth Economaidd gan gynnwys cynrychiolaeth o'r sector preifat.

Mae Ed Tomp, Is-lywydd a Rheolwr Cyffredinol Valero UK ym Mhenfro, eisoes wedi cael ei ddewis fel yr ymgeisydd a ffeirir i fod yn gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

Bydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd yn ymgysylltu â busnesau a'r sector preifat, yn rhoi cyngor ynghylch cyfeiriad strategol a chyflawni prosiectau, ac yn gwneud argymhellion i Gyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig o ran cyfleoedd i gryfhau effaith y Fargen Ddinesig ymhellach.

Dywedodd llefarydd ar ran Bargen Ddinesig Bae Abertawe: "Mae'r Cytundeb Cyd-bwyllgor yn ddogfen hynod bwysig ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

"Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud y tu ôl i'r llenni er mwyn cyrraedd man lle mae'r Cytundeb yn barod i gael ei anfon i'r pedwar cyngor rhanbarthol er mwyn iddynt ei gymeradwyo. Rydym yn gobeithio y gallwn sefydlu trefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig yn ffurfiol cyn hir.

"Ar ôl hynny, gallwn ddechrau denu arian gan y ddwy lywodraeth, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes, ar gyfer 11 prosiect y Fargen Ddinesig, sydd â'r pŵer i drawsnewid ffyniant economaidd a gwella bywydau pobl ar draws Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro."

Buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'n cael ei ariannu, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes, gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd y Fargen Ddinesig yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi ranbarthol ac yn creu bron 10,000 o swyddi newydd o ansawdd uchel.

Mae'r Fargen Ddinesig yn cael ei harwain gan y pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Benfro, ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a phartneriaid o'r sector preifat.

Mae'r ddwy lywodraeth wrthi'n asesu 8 o 11 achos busnes ar gyfer y prosiectau. Mae'r prosiectau'n cynnwys Yr Egin - clwstwr digidol creadigol ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llynnoedd Delta, Llanelli; ac Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau a fydd yn cynnwys arena dan do ddigidol a phentref digidol ar gyfer busnesau technegol.

Bydd isadeiledd digidol o'r radd flaenaf yn cael ei gyflwyno er mwyn cynorthwyo holl brosiectau'r Fargen Ddinesig, a bydd Menter Sgiliau a Thalentau yn cael ei rhoi ar waith ar draws y Dinas-ranbarth i roi cyfle i bobl leol gael mynediad at y swyddi ansawdd uchel a fydd yn cael eu creu mewn sectorau gan gynnwys gwyddorau bywyd, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a'r diwydiannau creadigol.

Hefyd, mae Peter Austin bellach wedi ymuno â Swyddfa Ranbarthol y Fargen Ddinesig, o Gyngor Sir Ceredigion, fel Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau y Fargen Ddinesig. Cyn hynny penodwyd Greg Jones, a ymunodd â'r Swyddfa Ranbarthol fel Swyddog Cyfathrebu a Marchnata'r Fargen Ddinesig, vm mis Chwefror.

CGE A Chyflogadwyedd: 'Gweithio Gyda'n Gilydd' i Sicrhau Cydlyniant O Ran Cyflawni ar Sail Ranbarthol



Ym mis Mai, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe, ar y cyd â Thîm Cynhwysiant Gweithredol WCVA a 3-SET, ddigwyddiad CGE A Chyflogadwyedd: 'Gweithio Gyda'n Gilydd' i Sicrhau Cydlyniant O Ran Cyflawni ar Sail Ranbarthol' yn Neuadd Goffa Llandybie. Gyda dros 70 o gynadleddwyr yn bresennol, roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i bawb sy'n bresennol ddod i wybod mwy am sut mae CGE yn cefnogi darparu cyflogadwyedd yn Ne Orllewin Cymru.

I ddechrau'r dydd, rhoddodd cynrychiolwyr o brosiectau Cyflogadwyedd a Chynhwysiant Gweithredol a ariennir gan CGE golwg gyffredinol ar gyflenwi eu prosiect. Gosododd hyn yr olygfa ar gyfer trafodaeth fywiog yn ystod yr egwyl rhwydweithio lle cafodd y prosiectau gyfle i rannu profiadau ac archwilio cydweithio.

Sicrhodd cyflwyniadau gan adran Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru, Cynhwysiant Gweithredol, a'r Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol, erbyn diwedd y digwyddiad, fod y rhai a fynychodd wedi clywed popeth am yr ystod eang o gefnogaeth sydd ar gael yn y rhanbarth.



Pobl ifanc yn y De-orllewin i elwa ar fuddsoddiad sylweddol gan yr UE



Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru. Nod Busnes Cymdeithasol Cymru yw cynorthwyo busnesau cymdeithasol sydd â dyheadau i dyfu. Mae prosiect Xcel yn un enghraifft o brosiect sydd wedi derbyn cymorth gan Fusnes Cymdeithasol Cymru.

Mae Prosiect Xcel yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd gan Eglwys Gymunedol Tywi er mwyn dod â buddsoddiad, swyddi a gwasanaethau i'w chymuned leol yng Nghaerfyrddin. Nod y prosiect yw rhoi cymorth i bobl leol sydd mewn argyfwng drwy ddarparu bwyd, celfi a dillad drwy Fanc Bwyd Caerfyrddin, Canolfan Ailgylchu Celfi Xcel a Siop Gymunedol Xcel.

Paul yw Rheolwr Canolfan Prosiect Xcel, a dyma ei stori:

Rwy'n aelod o Eglwys Gymunedol Tywi yng Nghaerfyrddin, a dechreuodd fy nhaith ym maes busnes cymdeithasol pan gafodd Mark Bennett, ein Gweinidog, y syniad hwn y gallem ni redeg canolfan fowlio. Roedd canolfan fowlio oedd yn cael ei rhedeg gan eglwys yn swnio'n hurt, ond pan eglurodd ein Gweinidog nodau'r prosiect a'r gwahaniaeth y gallai'r busnes hwn ei wneud, roeddwn i'n gyffro i gyd ac yn gwybod y byddai'n newid bywydau.

Mae gen i brofiad o waith fideo. Felly, pan wnaethon ni gais am gyllid gyntaf, cynigies i roi fideo hyrwyddol at ei gilydd yn dangos sut y byddai'r canolfan fowlio yn edrych. Dyna oedd fy nghyfraniad cyntaf at y prosiect ac, ar ôl dod i wybod rhagor am y ffordd y byddai'n gweithio, cynigies i fy ngwasanaethau er mwyn helpu i ddatblygu'r syniadau hynny.

Ar y pryd, roeddwn i wedi bod yn hunangyflogedig am 10 mlynedd yn gwneud gwaith fideo ac yn rheoli digwyddiadau ar ran sefydliadau gwahanol. Roedd gweithio i fi fy hun yn rhoi'r hyblygrwydd i mi wirfoddoli, a gwirfoddoles i yn ystod 18 mis cyntaf y prosiect. Er enghraifft, un o'r pethau cyntaf wnes i oedd mynd allan i'r gymuned leol er mwyn gweld a oedd angen ac eisiau ali fowlio yn yr ardal.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

£33m ar gyfer arloesi yn y byd iechyd i roi hwb i'r economi a chreu swyddi

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwerth £33m o gyllid i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau gofal iechyd newydd arloesol, gyda'r potensial i roi hwb i'r economi a chreu swyddi o ansawdd uchel.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Mae'r galw diweddaraf am gynigion prosiect Interreg Gogledd Orllewin Ewrop newydd bellach ar agor

Mae'r wythfed alwad (gwefan allanol) am gynigion prosiectau bellach ar agor. Y dyddiad cau yw 22 Tachwedd 2018.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Horizon 2020

Ar 7 Mehefin 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ar gyfer Horizon Ewrop, sy'n olynu Horizon 2020. Mae'r ddogfen a rhagor o wybodaeth am y rhaglen newydd i'w cael **yma**.

Mae Llywodraeth Cymru am i Lywodraeth y DU gadw mynediad llawn at raglenni Ewropeaidd gan gynnwys Horizon 2020 ar ôl Brexit, o ystyried y manteision o ran cydweithrediad rhyngwladol, gan rannu arfer gorau a hyrwyddo Cymru i'r byd.

Bydd Ian Holmes, Pwynt Cyswllt Cenedlaethol y DU ar gyfer rhaglen Horizon 2020 ar gyfer **Societal Challenge 2**, yn ymweld â Phrifysgol Aberystwyth ar 10 Gorffennaf, i gyflwyno'r cyfleoedd cyllido sydd ar y gweill yn Horizon 2020 a chyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys y Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor:

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer amryfal weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli. Bydd hynny, yn ei dro, yn cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Mae'r grant ar gael i amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n mynd ati i gydweithredu ar gynlluniau:

- BBAChau a busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil
- ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr mathau eraill o dir
- grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol), cymdeithasau perchenogion, coetiroedd cymunedol, ac ymddiriedolaethau
- awdurdodau lleol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Parc Amanwy,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@sirgar.gov.uk

